


Pecyn yr Ymgeisydd
2025

# Cyfarwyddwr Dysgu Hyblyg Gydol Oes

Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Ein dyfodol, gyda'n gilydd

| | |
|---|---|
| 4 | **Croeso gan yr Is-Ganghellor** |
| 6 | **Amdanom ni** |
| 12 | **Y Gwasanaethau Proffesiynol** |
| 15 | **Ymchwil sy'n cael effaith** |
| 18 | **Dysgu gyda'n gilydd** |
| 22 | **Ymgysylltu er mwyn newid** |
| 26 | **Rhagolygon rhyngwladol** |
| 29 | **Campws sy'n trawsnewid** |
| 30 | **Caerdydd: prifddinas fach a chlyfar** |
| 32 | **Y rôl** |



# Croeso

## Croeso i Brifysgol Caerdydd. Rwy'n falch iawn bod gennych chi ddiddordeb yn rôl Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Hyblyg..

Cenhadaeth Prifysgol Caerdydd yw creu gwybodaeth newydd ar y cyd, a'i rhannu, er mwyn sicrhau byd gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae ein strategaeth, 'Ein dyfodol, gyda'n gilydd', yn adeiladu ar ein hanes, ein gwerthoedd, ein cryfderau, ein hadnoddau a'n rhwydweithiau i gyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau uchelgeisiol. Ein gweledigaeth yw bod yn brifysgol sy'n arwain y byd, yn rhagorol ein hymchwil ac yn odidog ein haddysg, yn ogystal â chael effaith drawsnewidiol ar Gaerdydd, Cymru, y DU a'r byd.

Gan adrodd i Brif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol, mae'r rôl Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes Hyblyg yn gyfle arweinyddiaeth newydd cyffrous i lunio dyfodol dysgu gydol oes hyblyg yn y Brifysgol.

Mae angen rhywun arnon ni i arwain ar y gwaith o ddatblygu gwasanaeth trawsnewidiol sy'n ehangu ein portffolio dysgu ystwyth, sy'n dod o hyd i ffrydiau incwm newydd, ac sy'n gwella ein cyrhaeddiad byd-eang. Drwy feithrin partneriaethau strategol a lansio cynigion arloesol, bydd y Cyfarwyddwr yn gosod y Brifysgol mewn sefyllfa dda wrth i ni esblygu tuag at weledigaeth o "hyblygrwydd yn ddiofyn" — yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ac yn ymatebol i ofynion rheoleiddiol a gofynion y farchnad sy'n esblygu'n gyson. Mae'r rôl hon yn cynnig y cyfle i gael effaith barhaol ar ddysgwyr, cyflogwyr, a'r byd addysg drydyddol ehangach.

Os ydych chi o'r farn bod gennych chi'r sgiliau a'r brwdfrydedd i ragori yn yr her hon, bydden ni wrth ein bodd yn clywed gennych chi. Mae manylion llawn y rôl a'r cyfrifoldebau wedi'u nodi yn y disgrifiad swydd.

**Yr Athro Wendy Larner**
Yr Is-Ganghellor



# Gwirionedd, Undod a Chytgord

Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd ym 1883 yn un o'r colegau a sefydlodd Brifysgol Cymru. Mae ein harwyddair, sef Gwirionedd, Undod a Chytgord, yn nodi ein hymrwymiad i gydweithio i wneud gwahaniaeth parhaol ac er gwell i'n cymunedau, ac mae'n parhau i lywio ein sefydliad heddiw.

Rydym yn un o'r prifysgolion mwyaf yn y DU a'r unig brifysgol yng Nghymru sy'n aelod o Grŵp Russell.

Rydym wedi ein seilio'n gadarn yn ein hymdeimlad o le. A ninnau'r brifysgol fwyaf yng Nghymru – ac yn gyflogwr o bwys, gyda mwy na 7,000 o staff – rydym yn gweithio gyda chymunedau, byd diwydiant a'r llywodraeth i helpu i oresgyn heriau mwyaf brys ein hoes. Mae pob rhan o gymuned y Brifysgol yn chwarae rhan yn ein gweithgarwch ehangu cyfranogiad a chenhadaeth ddinesig sy'n gwneud gwahaniaeth i ystod amrywiol o bobl.

Mae ein heffaith economaidd yn sylweddol. Gwnaeth adroddiad diweddar amcangyfrif mai £3.7 biliwn oedd ein cyfraniad yn 2020/21, a hynny pan oedd y pandemig ar ei anterth. 6.4:1 yw ein cymhareb cost a budd, sy'n uwch na chyfartaledd Grŵp Russell (5.5:1).

Dros y blynyddoedd diwethaf rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn ein hystâd a'n seilwaith, gan wneud gwelliannau trawsnewidiol mewn cyfleusterau addysgu ac ymchwil sydd wedi arwain at fod yn rhan o brosiectau cydweithredol a phartneriaethau allanol newydd a chyffrous.

O amrywiaeth ein cymuned y daw ein gwir gryfder, gyda dros 30% o staff yn dod o'r tu allan i'r DU yn wreiddiol. Mae staff a myfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd a safbwyntiau yn gweithio gyda'i gilydd ac wedi'u hysgogi gan chwilfrydedd parhaus ac awydd i wneud gwahaniaeth er gwell.

Mae ein myfyrwyr yn ein gadael yn barod i barhau i lwyddo, gyda 95% o raddedigion mewn swydd, yn gwneud astudiaethau pellach, ar fin dechrau cwrs/swydd newydd neu'n gwneud gweithgareddau eraill yn 2020/21. Mae ein rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr yn parhau i dyfu, gan greu llysgenhadon brwdfrydig i'r Brifysgol ar draws ystod gynyddol o wledydd.



**30,672**

o fyfyrwyr o **138** o wledydd

**1,000**

o fyfyrwyr yn gwirfoddoli yn y gymuned leol bob blwyddyn

**22,992**

o israddedigion

**7,680**

o ôl-raddedigion

**6,460**

o fyfyrwyr rhyngwladol

**12fed**

yn y DU am gyfanswm nifer y ceisiadau am batentau yn 2019/20

**3ydd**

yn y DU am lwyddiant cwmnïau deillio (Octopus Ventures 2019, 2020)

**195,000**

o gyn-fyfyrwyr o dros **180** o wledydd

**25ain**

yn The Times Good University Guide

**26ain**

yn Complete University Guide

**95%**

o'n graddedigion mewn swydd, yn gwneud rhagor o astudiaethau, ar fin dechrau swydd/cwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio

Ymhlith yr

**20 uchaf**

yn y DU am ansawdd ymchwil yn gyffredinol ac yn yr **11eg** safle am effaith

Yn safle

**154**

ar restr ryngwladol QS

# Ein strwythur

Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnwys tri Choleg Academaidd a 10 adran gwasanaethau proffesiynol ategol.

**Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol**

- Busnes
- Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth
- Daearyddiaeth a Chynllunio
- Hanes, Archaeoleg a Chrefydd
- Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant
- Y Gyfraith a Gwleidyddiaeth
- Ieithoedd Modern
- Cerddoriaeth
- Y Gwyddorau Cymdeithasol
- Cymraeg

**Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd**

- Y Biowyddorau
- Deintyddiaeth
- Y Gwyddorau Gofal Iechyd
- Meddygaeth
- Optometreg a Gwyddorau'r Golwg
- Fferylliaeth a'r Gwyddorau Fferyllol
- Seicoleg

**Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg**

- Pensaernïaeth
- Cemeg
- Cyfrifiadureg a Gwybodeg
- Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd
- Peirianneg
- Mathemateg
- Ffiseg a Seryddiaeth




# Rheoli a llywodraethu

Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yw uwch-dîm rheoli'r Brifysgol. Mae'n gyfrifol am ddatblygu a gweithredu strategaethau, cynlluniau gweithredol, polisïau a gweithdrefnau, pennu cyllidebau a monitro perfformiad gweithredol ac ariannol. Mae'r Bwrdd yn dîm eang a cholegol o arweinwyr, ac mae'n gweithio'n agos gyda'r Cyngor drwy'r Is-Ganghellor i gyflawni strategaeth y Brifysgol a sicrhau perfformiad.

Y Cyngor yw'r corff llywodraethu, ac felly, dyma brif awdurdod y Brifysgol. Y corff hwn sydd â'r gair olaf ynglŷn â phob mater sy'n effeithio ar y Brifysgol. Mae'r Cyngor ym Mhrifysgol Caerdydd yn gorff cryf, amrywiol, sy'n dod â chyfoeth o brofiad ac ymrwymiad eithriadol i'r gwaith o lywodraethu'r Brifysgol. Mae aelodau'r Cyngor yn ymgysylltu â myfyrwyr a staff y Brifysgol, ac yn gweithio gyda'r Is-Ganghellor a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol i ddatblygu ein hamcanion a'n dyheadau.


Y Senedd yw prif gorff academaidd y sefydliad. Mae'n llywodraethu ar bopeth sydd o bwys academaidd ac yn gweithio gyda Chyngor y Brifysgol i sicrhau bod safonau, ansawdd a phrofiad myfyrwyr yn cyd-fynd â'n nodau a'n gwerthoedd.


# Y Gwasanaethau Proffesiynol

Mae'n hollbwysig bod y Brifysgol yn cael ei chefnogi gan Wasanaethau Proffesiynol o ansawdd uchel, sy'n cwmpasu'r holl swyddogaethau sy'n galluogi ac yn cefnogi dysgu ac addysgu, ymchwil a gweithrediadau.

Mae'r adrannau Gwasanaethau Proffesiynol canolog, dan arweiniad y Prif Swyddog Gweithredu ac Ysgrifennydd y Brifysgol, yn cynnwys:

- Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
- Cyfathrebu a Marchnata
- Datblygu a Chysylltiadau Cyn-fyfyrwyr
- Ystadau a Gwasanaethau'r Campws
- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- TG
- Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi
- Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol (gan gynnwys systemau cymorth i bwyllgorau)







# Ymchwil sy'n cael effaith

Mae gan Brifysgol Caerdydd sylfaen ymchwil ac arloesedd gynhwysfawr sy'n mynd o nerth i nerth, ac rydym yn gyfrifol am grantiau gwerth mwy na £600 miliwn. Cadarnhaodd ein perfformiad yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2021) fod Prifysgol Caerdydd yn y 14eg safle o ran pŵer ymchwil ac ymhlith yr 20 sefydliad gorau o ran ansawdd yn gyffredinol. Amlygodd hefyd ein cryfder penodol wrth greu ymchwil sy'n cael effaith, gan fod Prifysgol Caerdydd yn yr 11eg safle ymhlith prifysgolion y DU ac yn y safle 1af ymhlith y rhai mewn gwledydd datganoledig.

Mae gennym ddyheadau beiddgar i adeiladu ar y sylfaen hon, gyda chymuned dalentog o ymchwilwyr wrth ein craidd. Rydym yn blaenoriaethu diwylliant ymchwil cynhwysol a bywiog, gan gydweithio â'n partneriaid niferus i gyflwyno ymchwil sy'n bwysig i'r cymunedau o'n cwmpas.

Rydym wedi datblygu ein seilwaith yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae ein buddsoddiad gwerth £300 miliwn yn y Campws Arloesedd yn cynnwys yr Hwb Ymchwil Drosi, sef cartref Sefydliad Catalysis Caerdydd a'r Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd. Rydym hefyd wedi agor sbarc | spark, sef parc ymchwil cyntaf y byd ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol, sy'n creu cysylltedd a rhyngweithiadau newydd i fynd i'r afael â heriau o bwys sy'n wynebu cymdeithas. Mae ar yr un safle ag un o'n dwy ganolfan feithrin, gan greu eco-system fywiog ar gyfer arloesedd: mae Arloesedd Caerdydd@sbarc yn cynnwys swyddfeydd y gellir eu llogi, cyfleusterau swyddfa ffurfiol ac anffurfiol, labordai gwlyb a mannau arddangos ar y cyd ar gyfer busnesau a sefydliadau eraill; mae Medicentre yn darparu mannau gweithio aml-bwrpas ac mae hefyd yn cynnig cymorth proffesiynol i fusnesau newydd ym meysydd biodechnoleg a thechnoleg feddygol.

Ochr yn ochr â'r datblygiadau hyn, rydym wedi nodi pum maes allweddol a allai ddatblygu ymchwil ac arloesedd hynod ryngddisgyblaethol ar raddfa eang. Mae ein Sefydliadau Arloesedd newydd yn canolbwyntio ar: trawsffurfio digidol; sero net; niwrowyddoniaeth ac iechyd meddwl; a diogelwch, troseddu, cudd-wybodaeth ac imiwnedd systemau.

# Rydym yn blaenoriaethu diwylliant ymchwil cynhwysol a bywiog, gan gydweithio â'n partneriaid niferus i gyflwyno ymchwil sy'n bwysig i'r cymunedau o'n cwmpas.





Mae gennym ymdeimlad cryf o le a chenhadaeth i gyflawni dros Gymru: rydym yn sefydliad pwysig mewn prifddinas sydd â dylanwad cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym yn falch o fod wedi ennill cyllid partneriaeth ar gyfer dau brosiect Cryfder mewn Lleoedd UKRI. Mae'r cyntaf, CSconnected, yn fuddsoddiad o £43 miliwn i sefydlu de Cymru yn gartref i gymuned lled-ddargludyddion cyfansawdd gyntaf y byd, gan roi'r rhanbarth ar flaen y gad o ran technolegau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae'r ail, media.cymru, yn gydweithrediad gwerth £50 miliwn i gyflymu twf yn sector cyfryngau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Ei nod yw cynhyrchu £236 miliwn yn ychwanegol mewn gwerth ychwanegol gros erbyn 2026. Rydym yn gweithio ar brosiectau pwysig gyda Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd wrth gyflwyno'r fargen ddinesig, a thrwy fod yn aelod o Gynghrair GW4 rydym yn cyfrannu at brosiect Porth y Gorllewin. Rydym yn awyddus dros ben i gydweithio â sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru, gan gyfrannu at gryfder mewn amrywiaeth o bob rhan o'r sector.

Mae ein hymchwilwyr yn cydweithio â phartneriaid academaidd ar draws y byd ac rydym yn aelodau allweddol o rwydweithiau rhyngwladol pwysig. Mae'r rhain yn cynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud gan Ganolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (canolfan sy'n arwain y byd yn ei maes), ein rôl ym mhartneriaeth wyddonol Arsyllfa Tonnau Disgyrchol Laser Ymyriadurol (LIGO) a Chanolfan Max Planck-Caerdydd ar Hanfodion Catalysis Heterogenaidd.

Mae ein portffolio o bartneriaethau strategol sy'n cynorthwyo rhyngweithio hirdymor yn parhau i dyfu. Ar hyn o bryd, mae'n cynnwys y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Airbus, Dŵr Cymru a Siemens, ac mae partneriaethau pellach ar y gweill.

Gan gydnabod ein bod mewn amgylchiadau ariannu heriol – mae effaith Brexit i'w theimlo'n ddwys, ac mae heriau difrifol i gyllid ymchwil ac arloesedd yng Nghymru – rydym yn cydnabod bod angen i ni ddylanwadu ar drafodaethau polisi a phenderfyniadau yn ogystal â datblygu ffrydiau a chyfleoedd ariannu newydd a allai fod ar gael. Rydym yn hyderus wrth lunio'r dyfodol drwy staff talentog, gwaith tîm ar raddfa, diwylliant o greu ymchwil sy'n cael effaith, ac adeiladu ar ein cyfeiriadau ymchwil strategol.

# Dysgu gyda'n gilydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i raglen newid uchelgeisiol ar draws ei phortffolio addysg a phrofiad myfyrwyr er mwyn rhoi profiad dysgu rhagorol a dyfodol llwyddiannus i'w myfyrwyr, waeth beth fo'u cefndir.

Rydym wedi dechrau gweld manteision buddsoddiad sylweddol a phwyslais ar addysg ar draws y sefydliad. Er nad ydym yn caniatáu i dablau cynghrair ddylanwadu ar ein penderfyniadau strategol, mae'r fersiwn ddiweddaraf o The Times Good University Guide yn cynnig cipolwg ar ein cynnydd: rydym wedi dringo 10 safle i'r 25ain safle yn y DU ac wedi gweld gwelliannau o ran ansawdd ein haddysgu a phrofiad ein myfyrwyr.







*Mae tair elfen i'n rhaglen newid:*

**1** **Llwyddiant Myfyrwyr: sbarduno newid diwylliannol i wneud yn siŵr bod llais y myfyrwyr yn cael ei werthfawrogi ac yn llywio eu profiadau, bod cyfleoedd a deilliannau ar gael i bawb a bod asesiadau a chymorth academaidd yn cael eu personoli ac yn sicrhau bod dysgu effeithiol yn digwydd.**

**2** **Athrawon sy'n Ysbrydoli: meithrin diwylliant lle mae'r holl staff sy'n addysgu yn cael eu cydnabod, eu dathlu a'u cefnogi i arwain gwelliannau addysgol, lle mae datblygiad y cwricwlwm ac addysgol yn cael ei ymgorffori, lle mae arloesedd mewn dysgu ac addysgu yn cael ei hwyluso a'i gydnabod a lle mae cymuned ddysgu o academyddion blaenllaw yn cael ei chynorthwyo.**

**3** **Amgylchedd Cynhwysol ac Arloesol: rhoi cyd-destunau dysgu digidol a ffisegol sy'n cynorthwyo ymarfer cynhwysol cyfunol ac ar-lein, sy'n hyblyg ac sydd â'r gallu i gefnogi anghenion myfyrwyr ac academyddion yn ein cymunedau amrywiol.**



**Sgiliau a chyflogadwyedd graddedigion**
Rydym wedi cael cryn lwyddiant wrth wella sgiliau a chyflogadwyedd ein graddedigion. Yn 2019/20, aeth 46% o'n myfyrwyr israddedig ar leoliad gwaith yn ystod eu hastudiaethau, ac mae prosiect ar y gweill i ddarparu 300 o leoliadau gwaith ychwanegol erbyn 2023/24. Yn 2020/21, roedd 95% o'n graddedigion mewn swydd, yn gwneud rhagor o astudiaethau, ar fin dechrau swydd/cwrs newydd, neu'n gwneud gweithgareddau eraill megis teithio.

**Buddsoddi mewn Datblygiad Proffesiynol Parhaus academaidd**
Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu cyfres o Raglenni Cymrodoriaeth Addysg achredig llawn, i alluogi a chynorthwyo addysgwyr. Mae'r rhaglenni'n rhad ac am ddim i staff Prifysgol Caerdydd ac yn agored i bawb sy'n cefnogi addysgu a dysgu ar unrhyw adeg yn eu gyrfa. Maent yn arwain at ddyfarniadau Cymrawd Cyswllt, Cymrawd neu Uwch-gymrawd Advance HE a gydnabyddir gan y sector.

Drwy ein Hacademi Dysgu ac Addysgu newydd rydym yn buddsoddi mewn gwasanaethau datblygu addysg newydd. Ein nod yw dylunio cwricwlwm arloesol a chynaliadwy, yn ogystal â chynorthwyo timau'r Ysgolion a rhaglenni ar feysydd allweddol fel addysg gynhwysol ac asesu dilys.

**Canolfan Bywyd y Myfyrwyr**
Mae Canolfan Bywyd y Myfyrwyr yn fuddsoddiad sylweddol, nid yn unig mewn adeilad pwrpasol ond yn y gwasanaethau sydd eu hangen ar fyfyrwyr i ddod o hyd i'w ffordd trwy fywyd yn y brifysgol yn llwyddiannus. Mae'n ganolfan un stop ar gyfer cyngor ar iechyd a lles, paratoi ar gyfer y dyfodol, rheoli arian neu fyw yng Nghaerdydd. Mae'r datblygiad wedi cynnwys darparu gwasanaethau ar-lein 24 awr ac oriau agor estynedig.

Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o Wasanaeth Cyswllt y Prifysgolion ar gyfer Materion Iechyd Meddwl mewn partneriaeth â'r GIG. Mae'r gwasanaeth yn galluogi clinigwyr o fewn gwasanaethau cefnogi myfyrwyr i asesu, cyfeirio ac arwain myfyrwyr drwy wasanaethau'r GIG, yn ogystal ag ymgymryd ag asesiadau iechyd meddwl manwl a chwblhau cynlluniau diogelwch.

**Datblygu ein portffolio ar-lein a hyblyg**
Gwnaeth symud at ddarpariaeth ar-lein a chyfunol yn ystod pandemig COVID-19 gyflymu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth ar-lein, hyblyg ac o bell ar draws y Brifysgol, a'r awydd amdani. Ar hyn o bryd mae gan Brifysgol Caerdydd nifer fach o raglenni ar-lein yn unig, a hynny yn yr Ysgol Meddygaeth yn bennaf. Nod y Brifysgol yw datblygu'r ddarpariaeth hon i gyrraedd mathau newydd a gwahanol o fyfyrwyr, gan eu galluogi i gael mynediad at ystod o brofiadau dysgu, gan gynnwys microgymwysterau, a hynny ar adeg ac mewn man sy'n eu gweddu orau.

**Ehangu cyfranogiad**
Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i sicrhau bod addysg uwch ar gael i bobl o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Rydym yn drydydd yn Grŵp Russell am ganran yr israddedigion o gymdogaethau cyfranogiad isel ac yn bumed yn Grŵp Russell am nifer yr israddedigion o ysgolion gwladol (HESA 2020/21).

Rydym yn gwybod bod ein gwaith allgymorth yn llwyddiannus: mewn Gŵyl eCampws ddiweddar, roedd 94% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod ganddynt y gallu i lwyddo yn y brifysgol, mewn cymhariaeth â 76% cyn y cwrs. Rydym yn canolbwyntio nawr ar sicrhau dyfodol hyderus a llwyddiannus i bob myfyriwr ni waeth beth fo'i gefndir, a helpu myfyrwyr i bontio i fywyd prifysgol. Rydym hefyd yn gweithio'n galed i gynyddu cynrychiolaeth ymhlith rhai grwpiau a dangynrychiolir, a gwneud yn siŵr bod ganddynt y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i lwyddo.

# Ymgysylltu er mwyn newid




Mae'r Brifysgol wedi bod yn ymateb i heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas ac yn ymgymryd â gwaith er budd y cyhoedd ers ymhell dros 130 mlynedd. Rydym wedi ymrwymo i'n rôl o ran gwella iechyd, cyfoeth a lles y cymunedau o'n cwmpas.

Mae pandemig COVID-19 wedi peri i ni ailfeddwl sut y gallwn ddefnyddio ein harbenigedd yn well er budd ein cymunedau amrywiol. Rydym yn benderfynol o chwarae ein rhan i adfywio rhagolygon economaidd, diwylliannol a chymdeithasol Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar genedlaethau'r dyfodol. Yn 2021/22, gwnaethom ymgysylltu â phob ysgol, coleg a phartner addysg yng Nghymru. Byddwn yn gweithio'n galed i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol a'r argyfwng hinsawdd byd-eang. Byddwn hefyd yn ceisio ymgysylltu â phobl ifanc a chymunedau sydd wedi'u hallgáu, yn lleol a ledled Cymru, y mae angen cymorth a chefnogaeth arnynt fwyaf.

# Rydym wedi ymrwymo i'n rôl o ran gwella iechyd, cyfoeth a lles y cymunedau o'n cwmpas.

**Y Porth Cymunedol**
Mae'r Porth Cymunedol yn brosiect ymgysylltu blaenllaw gan Brifysgol Caerdydd sydd wedi ymrwymo i bartneriaeth hirdymor gyda thrigolion a busnesau Grangetown. Mae wedi cefnogi dros 85 o brosiectau rhwng y gymuned a'r Brifysgol, gan greu cysylltiadau rhwng staff a myfyrwyr y Brifysgol a thrigolion Grangetown i helpu i wireddu syniadau sydd o dan arweiniad y gymuned.

Mae'r prosiectau arbennig yn cynnwys Fforwm Ieuenctid arobryn Grangetown, Fforwm Busnes Grangetown a arweiniodd at lansio Marchnad Stryd y Byd gyntaf Grangetown, peilot Lonydd Chwarae Diogel Grangetown mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, rhaglen Gwyddor Dinasyddion Pharmabees, grŵp rhedeg cymdeithasol Run Grangetown, diwrnod iechyd meddwl blynyddol, Wythnos Diogelwch Grangetown a'r wythnos Gyrfaoedd a Modelau Rôl flynyddol ddisgwyliedig.

Yn 2019, daeth Prifysgol Caerdydd yn warcheidwad asedau Pafiliwn Grange, gan helpu'r gymuned i godi dros £2 miliwn i adeiladu cyfleuster hygyrch o ansawdd uchel a arweinir gan drigolion yng Ngerddi Grange. Mae'n cynnig lle fforddiadwy i'w logi, caffi sy'n canolbwyntio ar y gymuned, mannau cydweithio a gardd fioamrywiol a gwyrdd ar gyfer chwarae, iechyd a lles a thyfu tymhorol.



**Y Porth Cymunedol mewn niferoedd**

**85**
o brosiectau cydweithredol rhwng y Brifysgol a'r gymuned

**710**
o fyfyrwyr yn gweithio ar brosiectau addysgu 'byw'

**206**
o fyfyrwyr a graddedigion yn gwirfoddoli

Dros **30**
o bartneriaid trydydd sector

**6 dyfarniad**
sef dyfarniad Cronfa Ymchwil RIBA, dyfarniad Dathlu Rhagoriaeth Prifysgol Caerdydd, dyfarniad Arwain Cymru, dyfarniad y Ganolfan Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, dyfarniad CIPR Cymru Wales a dyfarniad rhyngwladol yr Athro Syr David Watson

**Rhagnodi cymdeithasol gwyrdd yng Nghwm Cynon**
Mae'r prosiect hwn yn digwydd yn hen dref lofaol Abercynon yn Rhondda Cynon Taf, un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol yn y DU. Mae'r prosiect yn defnyddio'r cysylltiadau presennol rhwng meddygon teulu lleol, cydlynwyr lles ac Anturiaethau Organig Cwm Cynon i greu cyfleoedd newydd i ymgysylltu â byd natur. Menter gymdeithasol yw Anturiaethau Organig Cwm Cynon, ac enillodd wobr Prosiect y Flwyddyn Cymru 2021 y Loteri Genedlaethol.

Gan weithio gyda'r gymuned, mae'r bartneriaeth yn datblygu llwybr natur a fydd yn golygu y gall meddygon teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill atgyfeirio aelodau'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau byd natur i wella eu hiechyd a'u lles personol.

Bydd y prosiect hefyd yn darparu tystiolaeth y mae mawr ei hangen i helpu'r gymdeithas i gael gwell dealltwriaeth o'r manteision y gall rhagnodi gwyrdd eu rhoi i fywydau pobl. Bydd cofnodi profiadau cleifion o'r llwybr natur yn helpu i greu data o'r byd go iawn ynghylch y manteision hyn ac i ddeall sut y gall cysylltu â byd natur hybu iechyd a lles.

**Prifysgol y Plant**
Elusen yn y DU yw Prifysgol y Plant sy'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a sefydliadau lleol i annog cariad at ddysgu. Mae Prifysgol y Plant yn rhoi'r cyfle i blant ddysgu mewn ystod gyfoethog o amgylchiadau, mynd i leoedd newydd, ymweld â phrifysgolion a mynd i'w seremoni raddio eu hunain.

Mae'r prosiect hwn yn annog cariad at ddysgu ymhlith plant, gan gynnwys ymdeimlad o ryfeddod at y byd o'u cwmpas. Mae hefyd yn datblygu eu hyder a'u dyheadau am ddyfodol disglair. Mae'r plant yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addysgol ar-lein a defnyddio adnoddau dysgu a ddatblygwyd gan wahanol bartneriaid.

Drwy gwblhau tasgau, mae'r plant yn ennill pwyntiau sy'n cyfrannu at gael cydnabyddiaeth ffurfiol o'u cyflawniadau yn eu seremoni raddio eu hunain.

Datblygwyd 13 o weithgareddau allgymorth gennym ar gyfer gwefan Prifysgol y Plant, gan gynnwys gweithgareddau'n seiliedig ar STEM, y Gwyddorau Cymdeithasol, Newyddiaduraeth, Hanes, Archaeoleg a Chrefydd. Rydym hefyd yn helpu i ddatblygu safle dwyieithog ar gyfer Prifysgol y Plant ar y cyd â Phrifysgol Glyndŵr yng ngogledd Cymru.

# Rhagolygon rhyngwladol

Mae gennym agwedd driphlyg at weithgarwch rhyngwladol: rydym am ddod â chynifer o bobl o ystod eang o wledydd â phosibl i astudio a gweithio ym Mhrifysgol Caerdydd, ehangu gorwelion ein haelodau drwy alluogi cyfnewid syniadau yn rhyngwladol a chydweithio â sefydliadau ledled y byd.

Cyn pandemig COVID-19, roedd 24.3% o'n myfyrwyr yn cymryd rhan mewn lleoliad gwaith tramor o bythefnos neu fwy. Mae bron i 31% o'n staff o'r tu allan i'r DU, ac mae tua 23% o'n myfyrwyr o'r tu allan i'r DU.

**Partneriaeth ddinesig ryngwladol — Prifysgol Namibia**
Dechreuodd ein partneriaeth â Phrifysgol Namibia yn 2014. Mae'r prosiect hwn yn un sydd wedi hen ennill ei blwyf ac rydym ni a Phrifysgol Namibia wedi elwa ohono. Mae wedi'i ehangu erbyn hyn i ymgorffori prosiectau addysg, ymchwil a meithrin gallu. Mae dros 30 o weithgareddau gwahanol wedi'u datblygu, o hyfforddiant anaestheteg i raglennu meddalwedd, ac o ysgolion haf mathemateg i dechnolegau dysgu digidol.

Mae'r bartneriaeth wedi arwain at nifer o ddyfarniadau, gan gynnwys dyfarniad Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) am Drawswladoli Ieithoedd Modern, a dyfarniad Datblygu Ymyriadau Iechyd y Cyhoedd y Cyngor Ymchwil Feddygol am ddatblygu a dosbarthu pecyn trawma yn Namibia. Mae Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Namibia hefyd wedi cael dyfarniad gan y Gymdeithas Frenhinol am raglen adeiladu capasiti ymchwil is-Sahara ar Ddeunyddiau Newydd ar gyfer Dyfodol Ynni Cynaliadwy, gan gydweithio â Phrifysgol Botswana a Phrifysgol Gwyddoniaeth a Thechnoleg Kwame Nkrumah yn Ghana.

**Partneriaethau strategol sydd â blaenoriaeth**
Mae gan Brifysgol Caerdydd ystod o bartneriaethau strategol sydd â blaenoriaeth. Mae'n parhau i ddatblygu cyfleoedd newydd gan roi pwyslais o'r newydd ar gydweithio ym maes ymchwil.

*Prifysgol Xiamen:* Caerdydd oedd y ddinas gyntaf yn y DU i efeillio â dinas yn Tsieina wrth ddod yn bartner â Xiamen bron 40 mlynedd yn ôl. Mae ein cytundeb presennol yn cynnwys cyd-oruchwylio myfyrwyr doethurol, a chronfa ar y cyd i ddarparu £1.2 miliwn o gyllid sbarduno ar gyfer prosiectau ymchwil cydweithredol i ddenu cyllid allanol a chreu cysylltiadau masnach newydd i Gymru.

*Cynghrair Bremen-Caerdydd:* Elfen unigryw o'r bartneriaeth hon yw cysylltiad staff academaidd rhwng un brifysgol a'r llall. Mae hyn yn galluogi staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil cydweithredol hirdymor ar y safle, goruchwylio myfyrwyr PhD a gwneud cais am gyllid allanol trwy systemau cenedlaethol perthnasol y sefydliad partner. Ar hyn o bryd mae'r ffocws ar dri maes penodol: y cyfryngau a'r gwyddorau cyfathrebu; gwyddorau'r môr a'r amgylchedd; ac astudiaethau llenyddol, cymdeithasol a hanesyddol.

*Universidada Estadual de Campinas (Unicamp):* Mae'r bartneriaeth hon gydag un o brifysgolion mwyaf blaenllaw Brasil yn defnyddio arian sbarduno mewnol a ffynonellau arian allanol i ddatblygu prosiectau ymchwil hirdymor, cefnogi cynlluniau symudedd myfyrwyr a staff, a sefydlu fframwaith ar gyfer datblygu rhaglenni PhD cydweithredol. Mae dros 100 o staff ar draws y ddau sefydliad wedi cydweithio ers 2015.

*Prifysgol Waikato:* Mae'r cytundeb hwn yn canolbwyntio ar weithgarwch ymchwil ac addysg ym meysydd: iaith, diwylliant a'r celfyddydau; deallusrwydd artiffisial a gwyddor data (roboteg), busnes a rheoli; a dŵr, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd.

*Prifysgol Normal Beijing:* Efallai mai'r elfen fwyaf nodedig o'n perthynas amlddisgyblaethol yw Coleg Tsieinëeg Caerdydd-Normal Beijing. Yn rhan o'r bartneriaeth hon, mae myfyrwyr y rhaglen BA Tsieinëeg yn treulio dwy flynedd ym Mhrifysgol Caerdydd a dwy ym Mhrifysgol Normal Beijing, gan raddio gyda gradd gan y ddau sefydliad.

*System Prifysgol Illinois:* Bydd y cytundeb pum mlynedd hwn yn sail i raglen esblygol o waith a chyfnewid myfyrwyr, a'r nod yw cryfhau ymchwil ar y cyd mewn meysydd allweddol: systemau ynni ac allyriadau sero net; seiberddiogelwch; gwyddor data a deallusrwydd artiffisial; ymchwil canser; y geowyddorau; entrepreneuriaeth ac arloesedd; ymchwil dŵr ac ymchwil peithiau; a newyddiaduraeth.

*Prifysgol Wyoming:* Gan adeiladu ar hanes cyfoethog o gydweithio, mae'r bartneriaeth hon yn galluogi prosiectau ymchwil cydweithredol, cyfres flynyddol o seminarau, cynadleddau a gweithdai, symudedd staff a myfyrwyr PhD a rhaglenni addysg cydweithredol.

**Canolfan Astudiaethau Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd**
Yn 2020, gwnaethom lansio Canolfan Astudiaethau Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Study Group. Mae'r Ganolfan yn darparu rhaglenni sylfaen ar lefel israddedig ac ôl-raddedig i fyfyrwyr o ystod eang o gefndiroedd a gwledydd, ac mae wedi cynyddu nifer ac amrywiaeth ein myfyrwyr rhyngwladol israddedig.







# Campws sy'n trawsnewid

Mae Prifysgol Caerdydd wedi buddsoddi £600 miliwn mewn datblygu ei champws dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi cynnwys creu Campws Arloesedd, prosiect i drawsnewid hen iard reilffordd yn gampws ymchwil arloesol.

Yn rhan o gam cyntaf y Campws Arloesedd, cwblhawyd Adeilad Hadyn Ellis a Chanolfan Ymchwil Delweddu'r Ymennydd Prifysgol Caerdydd (CUBRIC). Yn ystod y cam diweddaraf, sydd wedi costio £180 miliwn, cwblhawyd dwy ganolfan ragoriaeth newydd, Canolfan Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol, sbarc | spark, a'r Ganolfan Ymchwil Drosi sy'n cynnwys cyfleuster ystafell lân o'r radd flaenaf.

Rydym wedi buddsoddi £260 miliwn arall yn ein dulliau addysgu, dysgu a phrofiad y myfyrwyr. Mae Canolfan Bywyd y Myfyrwyr wedi dod â gwasanaethau cymorth y Brifysgol ynghyd mewn un lleoliad, ac roedd yn brosiect a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr.

Mae adeilad Abacws yn gartref i'r Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg a'r Ysgol Mathemateg. Yr adeilad 10,000 metr sgwâr hwn yw'r cyntaf ym Mhrifysgol Caerdydd i ddefnyddio ffordd newydd o weithio sy'n ymgorffori cydweithrediad a chydweledigaeth ond yn cadw hunaniaeth wahanol y ddwy Ysgol.

Cwblhawyd gwaith yn ddiweddar yn ailfodelu cartref Ysgol Pensaernïaeth Cymru yn Adeilad Bute. Cafodd hyn ei wneud ar ôl i'r Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant symud i'r Sgwâr Canolog a thafliad carreg o gwmnïau'r cyfryngau gan gynnwys BBC Cymru Wales a Reach Media.

Prynodd y Brifysgol hen safle'r Adran Gwaith a Phensiynau ger Ysbyty'r Mynydd Bychan yn 2019. Yn dilyn gwaith adnewyddu sylweddol ar yr adeiladau sydd yno, mae hyn wedi rhoi'r cyfle i symud Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd i un lleoliad.

Mae rhaglen dreigl gwerth £41 miliwn i wella mannau dysgu ac addysgu ar y gweill hefyd, a bydd yn trawsffurfio dodrefn, gosodiadau, ffitiadau ac offer clyweledol.

Mae rhagor o arian wedi'i fuddsoddi i leihau ôl troed cyffredinol yr ystadau drwy raglen Ffyrdd Gwell o Weithio. Mae'r prosiect hwn, ochr yn ochr â gwaith adnewyddu ac addasu mannau gwag, wedi ein galluogi i gael gwared ar adeiladau nad ydynt yn addas i'r diben mwyach.

# Caerdydd: prifddinas fach a chlyfar

Mae llawer i'w hoffi yng Nghaerdydd, prifddinas fach a chlyfar mewn cenedl uchelgeisiol. Ar un adeg roedd yn un o'r prif allforwyr glo yn y byd – ym Mae Caerdydd y llofnodwyd y siec gyntaf am £1 miliwn – ond mae'r ddinas wedi trawsffurfio ei hun o'i gorffennol diwydiannol. Erbyn hyn, Bae Caerdydd, a fu unwaith yn ardal dociau o bwys, yw'r datblygiad mwyaf ar lannau dŵr yn Ewrop. Mae'n cynnig hwylio, chwaraeon dŵr, siopau a bwytai, yn ogystal â Chanolfan Mileniwm Cymru a Senedd Cymru.

Mae Caerdydd yn ddinas ddwyieithog ac yn hen law ar weithredu mewn dwy iaith yn yr un ffordd a geir yn llawer o ddinasoedd Ewrop. Mae ganddi hefyd un o'r poblogaethau amlddiwylliannol hynaf yn y DU. Mae 94 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad ar draws y ddinas, gyda llawer o deuluoedd wedi dod i Gaerdydd am y tro cyntaf yn y 1900au.

Mae treftadaeth Fictoraidd y ddinas yn amlwg, yn adeiladau cerrig Portland y Ganolfan Ddinesig (sy'n cynnwys Llysoedd y Gyfraith, nifer o adeiladau'r Brifysgol a'r Amgueddfa), yng ngwaith William Burgess yng Nghastell Caerdydd, neu yn yr arcedau Fictoraidd, sy'n gartref i nifer gynyddol o fusnesau annibynnol.

Cynhelir cynyrchiadau o'r radd flaenaf yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, sy'n gartref i Opera Cenedlaethol Cymru, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Cherddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC. Mae lleoliadau nodedig eraill yn cynnwys Neuadd Dewi Sant, New Theatre, Theatr y Sherman a Chanolfan Gelfyddydau Chapter. Mae Amgueddfa Cymru yn gartref i un o'r casgliadau gorau o baentiadau argraffiadol yn Ewrop. Mae'r ddinas yn gartref i gymunedau celfyddydol, creadigol ac entrepreneuraidd cyffrous ar lawr gwlad, ochr yn ochr â datblygiadau mawr fel Porth y Rhath, sef stiwdios drama mwyaf y DU, Stiwdios Seren Great Point a GloWorks, sef canolfan ar gyfer cwmnïau annibynnol yn y diwydiannau creadigol.

Nid oes prinder cyfleoedd i wylio digwyddiadau chwaraeon. Stadiwm Principality yw'r unig leoliad o'i faint yn Ewrop sydd yng nghanol dinas, gan ddod ag awyrgylch dathlu i ddigwyddiadau chwaraeon o bwys a chyngherddau mawr. Mae Gerddi Sophia yn gartref i Griced Morgannwg ac mae lle i 16,000 o gefnogwyr yno. Mae gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd stadiwm yn Lecwydd, ac mae'r Cardiff Devils yn cynnig adloniant hoci iâ.

Mae'n hawdd teithio o gwmpas Caerdydd a chymudo yn ôl ac ymlaen i'r gwaith yma ar droed neu ar feic, a hynny'n aml drwy'r llu o fannau gwyrdd, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae Metro De Cymru, prosiect gwerth miliynau o bunnoedd, yn ceisio integreiddio gwasanaethau bws a thrên a theithio llesol a bydd yn hwyluso ffyrdd cynaliadwy o deithio ar draws de Cymru.

Mae Cymru Wyllt ar garreg y drws. Mae Caerdydd rhwng Arfordir Treftadaeth Morgannwg – y llwybr arfordirol cyntaf i gynnwys gwlad gyfan – a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, a bleidleisiwyd yn un o'r goreuon yn Ewrop ac yn Warchodfa Awyr Dywyll ryngwladol ddynodedig.

Mae ymwelwyr â Chaerdydd yn aml yn dweud wrthym fod y ddinas yn rhagori'n fawr ar eu disgwyliadau – mae'n cynnig llawer mwy na rygbi neu fywyd nos. Mae Caerdydd yn gyson ar frig y tablau sy'n asesu ansawdd bywyd mewn dinasoedd.

Mae gan y ddinas ddyfodol disglair o'i blaen hefyd gan fod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi neilltuo cronfa fuddsoddi gwerth £1.2 biliwn i dyfu sectorau allweddol drwy fuddsoddi mewn sgiliau, seilwaith a phrosiectau y gellir eu hehangu a arweinir gan arloesedd. Bydd gan y Brifysgol rôl hanfodol yn esblygiad a datblygiad parhaus Caerdydd, gan ddarparu arbenigedd, dealltwriaeth ac ymgysylltiad i sicrhau'r canlyniadau gorau i holl ddinasyddion y ddinas.



## Mae Caerdydd yn gyson ar frig y tablau sy'n asesu ansawdd bywyd mewn dinasoedd.

# Y Swydd



Mae Dysgu Gydol Oes Hyblyg yn ddatblygiad arwyddocaol i Brifysgol Caerdydd wrth i ni ddechrau gwireddu ein strategaeth newydd [Ein dyfodol, gyda'n gilydd](#).



Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i greu Sefydliad Dysgu Gydol Oes Hyblyg a fydd yn dod â'r wybodaeth a'r arbenigedd yn y Brifysgol ynghyd. Bydd yn cefnogi timau academaidd i ddatblygu a chyflwyno gwasanaeth dysgu gydol oes hyblyg newydd ac ehangach, a hynny er mwyn cyflawni "portffolio o gynigion addysgol newydd gan gynnwys gwasanaeth dysgu hyblyg gydol oes wedi'i rannu'n fodiwlau." Bydd hyn yn arwain at amrywio ein ffrydiau incwm a thyfu rhai newydd, yn ogystal ag ehangu darpariaethau'r Brifysgol i ystod ehangach o ddysgwyr.

Bydd ein portffolio o ddarpariaeth hyblyg yn y dyfodol yn hynod ddeniadol, yn broffesiynol ac yn ysgogi chwilfrydedd ein cwsmeriaid a'n partneriaid, a byddwn yn cynnig profiad di-dor i'n dysgwyr hyblyg drwy ddulliau a modelau cyflenwi newydd.

Byddwn ni'n ystyried rhaglenni meistr hyblyg newydd a microgymwysterau y gellir eu pentyrru, yn ogystal â chyrsiau byr heb eu hachredu a fydd yn ategu rhaglenni ar y campws a datblygiadau Addysg Drawswladol. Bydd ymgyrch newydd i ddatblygu darpariaeth cwbl ar-lein - mewn partneriaeth â sefydliadau allanol i gyrraedd marchnadoedd newydd, gan hefyd gynyddu ein Datblygiad Proffesiynol Parhaus wyneb yn wyneb i ddysgwyr unigol a thrwy bartneriaethau newydd ac ehangach gyda sefydliadau'r diwydiant a'r sector cyhoeddus.

Bydd y cynigion ystwyth hyn yn ein galluogi i ddangos dylanwad ein hymchwil yn well a manteisio ar ffrydiau incwm newydd, wrth inni wireddu ein gweledigaeth o fod yn brifysgol sy'n "hyblyg yn ddiofyn". Bydd ein modelau hefyd yn ein galluogi i gyflawni ein nodau strategol, yn ogystal ag amcanion Medr a Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â gofynion cyrff rheoleiddio sy'n newid yn gyson.

Dyma benodiad newydd i arwain y gwaith o sefydlu a datblygu'r gwasanaeth newydd a fydd yn trawsnewid ymagwedd y Brifysgol tuag at ddarpariaeth dysgu gydol oes hyblyg drwy'r canlynol:

- Datblygu ac arwain strategaeth gynhwysfawr i dyfu portffolio dysgu gydol oes hyblyg y Brifysgol, gyda phwyslais ar gynhyrchu ffrydiau incwm newydd ac amrywiol drwy ddarpariaeth cynaliadwy y gellir ei hehangu.
- Nodi a datblygu cyfleoedd busnes newydd, adeiladu partneriaethau gyda diwydiant a thrydydd partïon eraill, a lansio cynigion hyblyg newydd i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr (a hynny'n fyd-eang) gan gyd-fynd â mentrau Addysg Drawswladol (TNE) newydd y Brifysgol.
- Defnyddio tueddiadau'r farchnad, dadansoddiad cystadleuol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod cynigion y Brifysgol yn fasnachol hyfyw ac yn effeithiol ar gyfer ystod eang o ddysgwyr.
- Darparu cyngor lefel uchel i aelodau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol, Deoniaid Addysg Colegau ac uwch staff eraill y Brifysgol ar ofynion rhaglenni gydol oes hyblyg o ansawdd uchel a'r broses o'u darparu.

## Yn atebol i'r:

- Prif Swyddog Gweithredu

## Ynglŷn â'r ymgeisydd:

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n dangos y cryfderau a'r cymwyseddau canlynol:

- **Arweinyddiaeth strategol** - Dangos dealltwriaeth glir o'r weledigaeth strategol ehangach, gan fynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd newydd.
- **Ffocws masnachol** – Meddu ar ddealltwriaeth gref o'r ffactorau masnachol ac amgylcheddol sy'n dylanwadu ar y sector addysg uwch. Nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd yn y farchnad, gan sicrhau deilliannau masnachol llwyddiannus mewn amgylchedd academaidd.
- **Profiad y cwsmer** – Cydnabod pwysigrwydd gwasanaeth ac ymgysylltu rhagorol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Gwrando ar anghenion dysgwyr, staff a phartneriaid a mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau lefel uchel o foddhad a chefnogaeth.
- **Rheoli** – Dangos sgiliau trefnu cryf a chymryd perchnogaeth dros feysydd cyfrifoldeb allweddol, gan oresgyn heriau a chyflawni canlyniadau mewn modd amserol ac effeithlon.
- **Proffesiynoldeb** – Arddangos safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb proffesiynol, ac yn berson cyson a dibynadwy sy'n siarad yn eglur gan ennill ymddiriedaeth a pharch cydweithwyr a rhanddeiliaid.
- **Arloesi** – Mynd i'r afael â heriau gan ganolbwyntio ar gyfleoedd, a chynhyrchu syniadau newydd a chreadigol i wella arferion presennol a gwella deilliannau.
- **Dadansoddi a barnu** – Asesu materion a phroblemau'n feddylgar, gan wneud penderfyniadau gwybodus a realistig yn seiliedig ar ystyriaeth drylwyr o ddata a ffeithiau.
- **Diwylliannau a gwerthoedd** – Mynd ati i feithrin cydweithio a phartneriaeth ar draws y Gwasanaethau Proffesiynol a thimau academaidd, gan weithio tuag at nodau a rennir a chyfrannu at amgylchedd cadarnhaol a chynhwysol.



## Prif ddyletswyddau:

### Cynllunio strategol a datblygu busnes:

- Datblygu strategaeth ar gyfer dysgu hyblyg gydol oes sy'n ysgogi twf, yn gwella proffidioldeb, ac yn cyd-fynd â strategaeth y Brifysgol, a'i rhoi ar waith.
- Nodi ac asesu cyfleoedd yn y farchnad ar gyfer gwahanol haenau o ddarpariaeth gydol oes hyblyg, ac arwain gwaith datblygu rhaglenni newydd y mae galw amdanynt sy'n diwallu anghenion dysgwyr gydol oes hyblyg a diwydiant/sefydliadau.
- Cynnal ymchwil i'r farchnad a dadansoddiad cystadleuol yn rheolaidd i sicrhau bod darpariaeth y Brifysgol yn parhau i fod yn berthnasol, yn arloesol ac yn addas i'r farchnad.

### Datblygu cyrsiau a chynhyrchu refeniw:

- Goruchwylio gwaith datblygu a rheoli darpariaethau sy'n dwyn credydau a rhai sydd ddim yn dwyn credydau i ysgogi cofrestru yn rhanbarthol ac yn fyd-eang, a manteisio i'r eithaf ar refeniw.
- Arwain ymdrechion i amrywio ffrydiau incwm y Brifysgol drwy ddatblygu ac ehangu cynigion newydd, wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan gynnwys cyrsiau byr, microgymwysterau, cyrsiau Meistr hyblyg, addysg weithredol a phartneriaethau hyfforddi corfforaethol.
- Datblygu strategaethau costio a phrisio sy'n sicrhau cynaliadwyedd ariannol a phroffidioldeb ar gyfer datblygiadau dysgu hyblyg gydol oes, a'u rhoi ar waith.
- Monitro perfformiad y rhaglen, gan ddefnyddio mewnwelediadau a yrrir gan ddata i wella cynigion ac addasu strategaethau ar gyfer gwelliant parhaus.

### Arwain a rheoli:

- Arwain a rheoli nifer o dimau arbenigol sy'n rhan o wasanaeth newydd ar gyfer dysgu hyblyg gydol oes, gan ddatblygu amgylchedd gwaith hyblyg a dynamig, a sicrhau cyflenwad a rhagoriaeth gwasanaeth yn y Brifysgol ar draws yr holl fentrau dysgu gydol oes.
- Rheoli matrics ar gyfer rolau a thimau amrywiol ar draws y sefydliad yn ôl yr angen.
- Meithrin cysylltiadau partneriaeth cryf â Cholegau, Ysgolion academaidd ac adrannau eraill i gefnogi'r gwaith o roi strategaeth y Brifysgol ar waith yn effeithiol mewn perthynas â dysgu hyblyg gydol oes.
- Cynnig arweinyddiaeth, cyngor o'r radd flaenaf a chefnogaeth i bob uwch reolwr gan ddefnyddio mesurau rheoli perfformiad a datblygiad proffesiynol effeithiol i wneud yn siŵr bod cysondeb ac aliniad ymarfer, ac i wella perfformiad ar y lefelau unigol a thîm, fel bod modd i bob un wireddu ei wir botensial.
- Mynd ati'n rhagweithiol i wreiddio diwylliant o welliant a chydweithrediad parhaus ar draws y Ganolfan a chynnal y diwylliant hwnnw, gan feithrin ethos o weithio mewn partneriaeth, cyd-greu a gwerthoedd y Brifysgol.
- Gweithio ar draws y Brifysgol yn uwch aelod o'r Gwasanaethau Proffesiynol, eistedd ar Fwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol, cynghori'r Prif Swyddog Gweithredu, y Rhag Is-Ganghellor Addysg, y Profost a'r Dirprwy Is-Ganghellor, a chyflwyno i Fwrdd Gweithredu'r Brifysgol fel y bo angen.

**Partneriaethau a chysylltiadau allanol:**

- Adeiladu partneriaethau strategol gyda diwydiant, llywodraeth, sefydliadau'r sector cyhoeddus, sefydliadau di-elw a rhanddeiliaid allanol eraill i ehangu cyrhaeddiad ac effaith darpariaeth dysgu hyblyg gydol oes y Brifysgol yn rhanbarthol, yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.
- Datblygu a thrafod nawdd corfforaethol, partneriaethau, a chytundebau hyfforddi sy'n cynhyrchu cyfleoedd busnes a refeniw newydd i'r Brifysgol ac ymateb i wahoddiadau i dendro ar gyfer contractau allanol.
- Gwasanaethu yn llysgennad i'r Brifysgol ar gyfer dysgu hyblyg gydol oes, gan feithrin perthnasoedd ag arweinwyr diwydiant, llywodraeth, sefydliadau'r sector cyhoeddus, cyn-fyfyrwyr a sefydliadau allanol

**Marchnata, cofrestru, a datblygu brand:**

- Cydweithio â thîm cyfathrebu a marchnata'r Brifysgol i ddatblygu ymgyrchoedd effeithiol wedi'u targedu sy'n cynyddu gwelededd, ymwybyddiaeth brand, a nifer y bobl sy'n cofrestru ar gyfer cyrsiau dysgu hyblyg gydol oes.
- Goruchwylio strategaethau cofrestru, gan sicrhau recriwtio effeithiol ar gyfer dysgwyr hyblyg a chleientiaid corfforaethol a chynnal y berthynas â nhw, gan ddefnyddio technolegau digidol effeithiol.
- Datblygu strategaethau allgymorth wedi'u teilwra i ymgysylltu â grwpiau penodol o ddysgwyr, megis gweithwyr proffesiynol, sefydliadau a dysgwyr sy'n canolbwyntio ar uwchsgilio, ailsgilio a dysgu sgiliau newydd.

**Rheoli ariannol a gweithredol:**

- Datblygu a rheoli cyllidebau cysylltiedig, gan sicrhau bod nodau ariannol yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r rhaglen.
- Monitro refeniw a gwariant ar gyfer rhaglenni, gan roi mesurau rheoli costau ac effeithlonrwydd gweithredol ar waith lle bo angen.
- Gwerthuso perfformiad ariannol yn rheolaidd i sicrhau bod targedau twf a phroffidioldeb yn cael eu cyflawni ac adrodd yn rheolaidd drwy lywodraethu ffurfiol, gan gynnwys Bwrdd Gweithredol y Brifysgol.

**Strategol, deddfwriaethol a rheoleiddiol:**

- Meddwl am yr ystyriaethau strategol a rheoleiddiol, yng Nghymru ac yn y DU, gan gynnwys bodloni disgwyliadau blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol a chylch gwaith Medr.
- Gwerthuso cyfleoedd i ddatblygu gwahanol lwybrau i'r Brifysgol a thrwyddi, gan gefnogi strategaethau Ehangu Cyfranogiad a Chenhadaeth Ddinesig, a sicrhau eu bod yn darparu hyblygrwydd i ddysgwyr.
- Datblygu strwythurau priodol i gefnogi adrodd statudol.

## Dimensiynau

Bydd y Cyfarwyddwr yn gyfrifol am greu Sefydliad newydd sydd ei angen i gyflawni'r strategaeth Dysgu hyblyg gydol oes newydd. Yn gyntaf, bydd hyn yn cynnwys tîm y rhaglen a'r arweinwyr academaidd, yn ogystal â manteisio'n uniongyrchol ar dimau a rolau ar draws y sefydliad i gefnogi ac alinio'r gwasanaeth newydd. Bydd y rôl yn cynnwys rheolaeth ac arweinyddiaeth fatrics a chyfrifoldeb uniongyrchol mewn sefydliad sydd ag oddeutu 60 aelod o staff cyfwerth â llawn amser.

Gan adeiladu ar ddarpariaeth bresennol Caerdydd, disgwylir y bydd y Sefydliad newydd yn datblygu nifer o ffynonellau incwm newydd gwerth miliynau o bunnoedd trwy ei raglenni newydd.

## Cydberthnasau Mewnol ac Allanol

**Mewnol:**

Profost Prifysgol; Rhag Is-ganghellor Addysg a Myfyrwyr, Rhag Is-ganghellor Rhyngwladol a Rhag Is-ganghellor Ymchwil, Arloesedd a Menter; Rhag Is-gangellorion ar gyfer y tri Choleg; Pennaeth Cyfathrebu; Deoniaid Addysg Colegau; Penaethiaid Ysgolion; Academi Dysgu ac Addysgu; Cofrestrfa; Cyfarwyddwyr o adran TG y Brifysgol.

**Allanol:**

HESA, Medr, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas y Prifysgolion ar gyfer Dysgu Gydol Oes, Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Advance HE.

# Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad

- Gradd, a naill ai cymhwyster proffesiynol neu brofiad proffesiynol sylweddol sy'n berthnasol i'r rôl (e.e. arweinyddiaeth a rheoli).
- Profiad sylweddol o uwch reoli perthnasol mewn amgylchedd cymhleth gyda phrofiad blaenorol o gyflawni rhaglenni addysgol mawr llwyddiannus.
- Profiad eang a dwfn o arwain ac ehangu darpariaeth addysgol sy'n cynhyrchu refeniw mewn cyd-destun masnachol neu entrepreneuraidd, gyda phrofiad sylweddol o ddefnyddio strategaeth fusnes, dadansoddiad y farchnad a modelau cynhyrchu refeniw mewn lleoliad addysgol.
- Profiad llwyddiannus o feithrin a chynnal partneriaethau allanol a sicrhau cyllid drwy fentrau datblygu busnes, gyda meddylfryd entrepreneuraidd cryf a'r gallu i nodi a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad.
- Sgiliau dadansoddol cryf, gyda'r gallu i ddehongli data a defnyddio gwybodaeth i ddod i benderfyniadau a manteisio i'r eithaf ar raglenni, gyda dealltwriaeth gadarn o ddeinameg y farchnad, prisio a modelau busnes ar gyfer dysgu hyblyg gydol oes.
- Tystiolaeth amlwg a pharhaus o ddatblygu, trosglwyddo a gweithredu cynlluniau strategol yn effeithiol i arferion a gweithdrefnau gweithredol, gan gynnwys datblygu a/neu weithredu polisïau a gweithdrefnau, yn unol â fframweithiau a rheoliadau allanol.
- Profiad o reoli rhaglenni'n ffurfiol, arwain, gweithredu a chyflwyno ar draws amgylchedd mawr a chymhleth, gyda'r gallu i fod yn arloesol a chymhwyso lefel uchel o fentergarwch i ddatrys materion cymhleth gan gynnwys rheoli a lliniaru risg
- Tystiolaeth o agwedd rhagweithiol at wella'n barhaus a newid sut y caiff gwasanaeth ei ddarparu, gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'i lywio gan ddealltwriaeth data, profiad y defnyddiwr a gwerthuso systematig, a'r gallu i gefnogi ac ysgogi staff i ymgysylltu'n weithredol ag anghenion a ysgogwyr gweithredol sy'n newid, wrth gynnal a chadw safonau.
- Profiad o gynllunio gweithredol a rheoli adnoddau'n effeithiol sy'n sicrhau cynaliadwyedd yn ymarferol wrth weithio dan bwysau, rheoli terfynau amser tyn a chydbwyso gofynion a blaenoriaethau cystadleuol, yn ogystal â bod yn ymwybodol o sefyllfaoedd cymhleth sy'n dod i'r amlwg ac ymateb iddynt.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol, gyda phrofiad o ddatblygu a chynnal cydberthnasau gwaith effeithiol gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol sy'n hyrwyddo cydweithredu, dealltwriaeth gyffredin, a diwylliant o gyfrifoldeb ac atebolrwydd
- Y gallu i drafod gyda gwahanol bartïon er mwyn rheoli unrhyw wrthdaro posibl yn effeithiol, a hynny wrth weithio o fewn ffiniau proffesiynol
- Ymrwymiad cryf i genhadaeth a gwerthoedd y Brifysgol, ac i integreiddio a chyflawni egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i alluogi llwyddiant myfyrwyr.

**Dymunol:**

- Cymhwyster Ôl-raddedig/Proffesiynol
- Profiad o ddatblygu partneriaethau â darparwyr allanol, e.e. darparwyr cyrsiau byr neu gwmnïau rheoli rhaglenni ar-lein.



# Gwybodaeth Ychwanegol

**Telerau ac Amodau Cyflogaeth**

Bydd Prifysgol Caerdydd yn cynnig cyflog deniadol, sy'n gyfatebol i brofiad, ar gyfer deiliad swydd hynod dalentog. Mae Caerdydd yn cynnig 37 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc, a phensiwn USS Retirement Income Builder.

**Polisi Cyfle Cyfartal**

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi a hybu cydraddoldeb ac amrywioldeb a chreu awyrgylch cynhwysol ar gyfer gweithio. Credwn y gellir gwneud hynny drwy ddenu, datblygu a chadw ystod amrywiol o staff o lawer o wahanol gefndiroedd. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned beth bynnag fo'u rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu, neu oed. Wrth gefnogi ein gweithwyr i gael cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u bywydau personol, byddwn hefyd yn ystyried cynigion i rannu swyddi neu weithio'n hyblyg. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/equality-and-diversity

**Sut i wneud cais**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod y rôl ymhellach, cysylltwch â Gillian Blackadder, Katharine Price neu Donogh O'Brien yn Aspen People ar 0141 212 7555.

© Cardiff University 2025 All rights reserved.